# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 5 Chwefror 2014**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(178)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 2 a 6 eu grwpio.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai ac Adfywio

Dechreuodd yr eitem am 14.18

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.

### 3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 15.00

Gofynnwyd y ddau gwestiwn.

**Cwestiwn brys**

Dechreuodd yr eitem am 15.09

**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynglŷn â chyflogau a phensiynau uwch swyddogion cynghorau yn sgîl adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru?

**Cynnig i atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a Rheol Sefydlog 11.16 er mwyn caniatáu i NNDM5427 gael eu hystyried (5 munud)**

Dechreuodd yr eitem am 15.16

**NNDM5428 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM5427 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mercher, 5 Chwefror 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Plant a Theuluoedd mewn perthynas ag ysmygu mewn cerbydau preifat sy'n cludo person neu bersonau o dan 18 oed

Dechreuodd yr eitem am 15.17

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NNDM5427 Mark Drakeford (Cardiff West)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Plant a Theuluoedd sy'n ymwneud ag ysmygu mewn cerbydau preifat sy'n cario person neu bersonau o dan 18 oed, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 3 | 4 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Academi Heddwch Cymru

Dechreuodd yr eitem am 15.35

**NDM5420 William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar sefydlu Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 16.20

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5421 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu gwella cysylltedd ledled Cymru wledig i sicrhau mynediad effeithiol i wasanaethau.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 0 | 11 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 7 Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.16

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5422 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod potensial sylweddol adnoddau naturiol Cymru ac yn credu y dylai rheolaeth lawn dros y defnydd ohonynt gael ei datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 16 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyfnod pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 18.13

## 8 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.15

**NDM5388 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Pobl hyn, twyll a throseddau ar garreg y drws

Daeth y cyfarfod i ben am 18:41

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 11 Chwefror 2014**